## *Grŵp Ecosystem Arfordirol Cymru - nodiadau drafft o'r cyfarfod cyntaf, 17 Chwefror 2009, CCGC Aberystwyth*

***Presennol:*** Kate Collins (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru); Kate Williamson (SNPA / CGBau Lleol); Matthew Murphy (CCGC); Mike Howe (CCGC – Cadeirydd dros dro); Nia Jones (Gwaith Trin Dŵr); Richard Ellis (NT); Sean McHugh (Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru); Steve Chambers (LlCC).
***Ymddiheuriadau***: Mark Winder (Cyngor Sir Abertawe); Peter Rhind (Cadeirydd y grŵp / CCGC); Sarah Perry (Canolfan Bywyd Gwyllt Morol Bae Ceredigion); Steve Moon (Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr); Tim Hall (Gwaith Trin Dŵr - bydd Nia yn cynrychioli'r Gwaith Trin Dŵr mewn cyfarfodydd yn y dyfodol).

## Tabl 1. Pwyntiau gweithredu o gyfarfod 17 Chwefror 2009.

| ***Pwynt gweithredu / trafod*** | ***Trafodaeth*** | ***Gweithredu ar unwaith*** | ***Cynnydd erbyn yr 2il gyfarfod*** |
|---|---|---|---|
| ***1. Aelodaeth y grŵp / perthynas â grwpiau eraill*** | | | |
| Edrych ar fylchau yn y proffil aelodaeth. Asesu'r berthynas â grwpiau ecosystem eraill a rhanddeiliaid eraill | Nododd Stephen Chambers ei fod yn cynrychioli Julie Bowes (LlCC)<br>Roedd Kate Williamson yn cynrychioli Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a gallai roi gwybod i CGBau Lleol Gogledd Cymru am unrhyw faterion. Byddai cynrychiolydd o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a CGB Lleol De Cymru yn ddefnyddiol. Ystyrir y broses SMP yn hanfodol i hyfywedd cynefinoedd arfordirol. Cydnabu fod mynediad arfordirol a phlanhigfeydd ar dwyni tywod yn effeithio ar hyn. Hefyd, nodwyd bod y Grŵp Ecosystem Glaswelltir a Rhostir yn bartner allweddol am fod achosion o orgyffwrdd mewn perthynas â chynefinoedd. Hefyd, trafodwyd presenoldeb yr RSPB, sydd ar y SPEG ond sydd o dan ormod o bwysau.<br>Nodwyd prosiect mynediad arfordirol CCGC fel ysgogwr allweddol. Nodwyd | Bydd **SM** yn gwahodd Bethan Cox/Jane Hodges o Sir Benfro<br>Casglu manylion cyswllt ar gyfer Grwpiau Cynllun Rheoli Traethlinau (SMP) (**RE** yn y de, a bydd **SM** yn gwneud yr un peth ar gyfer gweddill Cymru drwy Bartneriaeth Arfordir a Môr Cymru (PAMC)). Dylid penderfynu ar y ffordd ymlaen a thelerau'r cysylltiad rhwng y broses SMP a'r grŵp (**Pawb - PR yn arwain**)<br>Bydd **PR** yn cysylltu â Chomisiwn Coedwigaeth Cymru (Chris Tucker) am faterion sy'n ymwneud â choedwigaeth<br>Bydd **RE/PR** yn cysylltu â chadeirydd y Grŵp Ecosystem Glaswelltir a Rhostir (a arweinir gan **NT**) ac yn trefnu cyfarfod os oes angen gwneud hynny<br>Bydd **PR** yn gweithio gyda Grwpiau Ecosystem a SPEGau eraill fel y bo'n briodol<br>Bydd **MH** yn cysylltu â'r prosiect mynediad arfordirol am y materion sy'n dod i'r amlwg (Quentin Grimley yw'r pwynt cyswllt) | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | materion yn ymwneud â thrawsgydymffurfiaeth Tir Gofal ar gyfer pecynnau o rywogaethau. Efallai y byddai mewnbwn gan reolwyr tir arfordirol a staff Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (ANHE) yn ddefnyddiol, a soniwyd am staff CCGC a Chynffig. Efallai y byddai'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) yn effeithio ar brosesau arfordirol, a materion yn ymwneud ag ansawdd a llygredd dŵr yn bennaf. | Cynigiwyd Lucy Oliver (CCGC/wedi'i lleoli yn Asiantaeth yr Amgylchedd) fel cyswllt ar gyfer WFD / monitro llygredd | |
| ***2. Adolygu cylch gwaith / cylch gorchwyl y Grŵp*** | Mae pedwar cynefin yn rhan o hyn: Clogwyni arforol; Morfeydd heli; Twyni tywod; Graean sydd â llystyfiant. Roedd y grŵp yn cytuno â'r cylch gorchwyl ar y cyfan ac yn 'mynd i wneud yr hyn a allwn' i wella cynefinoedd a rhywogaethau arfordirol. Byddai diffiniad o 'gynefinoedd arfordirol' yn ddefnyddiol, yn arbennig y pellter y mae Clogwyni Arfordirol yn ymestyn i mewn i'r tir. Nododd KW nad oedd y grŵp yn disgwyl gosod targedau ar gyfer rhywogaethau; câi hyn ei gyflawni gan y Grŵp Arbenigol Rhywogaethau. Byddai'r grŵp arfordirol yn cymryd camau gweithredu mewn perthynas â chynefinoedd i rywogaethau; gallai'r grŵp fod yn gymhelliant i weithredu dros gynefinoedd a rhywogaethau arfordirol a'u hyrwyddo. | Bydd **PR** yn canfod a oes diffiniad cyffredinol o gynefinoedd arfordirol yn bodoli | |
| ***3. Adolygiad o amcanion / targedau*** | | | |
| Ystyrir amcanion a thargedau cenedlaethol (y | Derbyniwyd yr egwyddor o weithredu | Gwiriwyd targedau diwygiedig y DU (2006) ar ôl y | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| DU) ar gyfer cynlluniau cynefinoedd yn addas ar y cyfan. | nad yw'n arwain at golli cynefin ond bod angen cofio bod llawer o gynefinoedd arfordirol yn symudol ac yr effeithir arnynt gan wasgfa arfordirol. Trafodwyd a yw rhai o'r targedau yn berthnasol i Gymru (e.e. Creu coetir Iwerydd mewn pum lleoliad) | cyfarfod. Maent yn sôn am 'greu dau gynefin coetir twyni Iwerydd erbyn 2015' (yn berthnasol i Gymru). Mae angen gwirio hyn gyda Jan Sherry **PR**<br>(Dylai **SM** roi gwybod i bawb am y ddolen at dargedau diwygiedig CGB y DU ar gyfer 2006) | |
| Cafodd targedau'r CGBau Lleol o ran hectarau eu cyhoeddi ac ystyrir eu bod yn ddefnyddiol ar y cyfan | Cytunwyd ar dargedau hyblyg ar y cyfan. Mae targedau dadelfenedig ar gyfer pob CGB Lleol yn seiliedig ar amcangyfrif gorau ac nid ydynt yn bendant. Bydd nodi safleoedd allweddol yn hanfodol. Noder y sylw ar dargedau rhywogaethau ym Mlwch 2. | Caiff prosiectau awdurdodau lleol eu harchwilio mewn perthynas â'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth (BARS) a chysylltir â CGBau Lleol i gael gwybodaeth am safleoedd **SM/KW** (gall SM gynnal Adroddiadau BARS Cymru gyfan a chysylltu â Swyddogion De Cymru/gall Kate gysylltu â CGBau Lleol Gogledd Cymru)<br>Bydd Richard yn cysylltu â Sarah Mellor i gael gwybodaeth am BARS NT **RE** | |
| Mae angen mapio rhywogaethau i'w cynefinoedd a chymryd camau (cyfeirio) Dylid llunio rhestr o rywogaethau ar gyfer pob cynefin | Mae hyn yn hanfodol i lywio camau gweithredu manwl o ymarfer cyfeirio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer pob rhywogaeth, nid rhywogaethau S42 yn unig | Mae grŵp gorchwyl a gorffen Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn gweithio ar hyn**.** Bydd Jan Sherry yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gadeiryddion y grwpiau ecosystemau ar 17eg Mawrth. Bydd **PR** yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp. | |
| Nodi safleoedd, bylchau a chyfleoedd ar gyfer adfer ac ehangu | Nodwyd y byddai'r rhan fwyaf o safleoedd arfordirol yn y categori ACA / SoDdGA a byddai angen i CCGC arwain hyn. Fodd bynnag, byddai partneriaid eraill yn gallu cyfrannu. Lluniodd Asiantaeth yr Amgylchedd restr o gyfleoedd ar gyfer morfeydd heli (Gogledd Cymru). Mae asesiad risg arfordirol o eiddo'r Ymddiriedolaeth | Bydd **MH** yn gofyn i Peter a oes ganddo restr o brosiectau arfordirol (cynlluniau sydd ar waith neu gynlluniau arfaethedig)<br>Llunio a dosbarthu haenen o Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) ar gyfer cynefinoedd arfordirol **MM**<br>Dosbarthu astudiaethau o gyfleoedd Morfeydd Heli Asiantaeth yr Amgylchedd a gwneud ymholiadau ynghylch gwaith yn y de. (Soniwyd am Nicola | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Genedlaethol yn cynnwys y categori geomorffoleg traethlin.<br>Bydd Canlyniad 21 (O21) y gronfa ddata camau gweithredu yn effeithio ar y broses o reoli arfordirol. Mae'n rhaid gwarchod yn erbyn penderfyniadau rheoli 'unedig' ac edrych ar y systemau cyfan. | Rimmington fel cyswllt posibl) **KC**<br>Archwilio safleoedd/camau gweithredu Gwaith Trin Dŵr **NJ**<br>Archwilio safleoedd/camau gweithredu NT **RE**<br>Dosbarthu Asesiad Rish Arfordirol NT **RE**<br>Sicrhau bod y gwaith yn unol ag amcanion prosiect O21 **PR** | |
| | Mae rhai astudiaethau arfordirol yn bodoli, e.e. 'Shifting Sands' yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Fframwaith Twyni Tywod CCGC; Astudiaeth Morfeydd Heli Asiantaeth yr Amgylchedd | Bydd **pawb** yn anfon dolenni at Peter Rhind a fydd yn llunio llyfryddiaeth | |
| ***4. Cyllid*** | | | |
| | Mae prosiectau ariannu'n hanfodol. Mae cynnig LIFE CCGC, "Symud twyni tywod", ar waith. Ystyrir ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn enwedig ar lefel leol, yn elfen allweddol.<br>Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri arian y gellid ei ddefnyddio ar gyfer cynefinoedd arfordirol.<br>Cyllid/effaith bosibl o ganlyniad i adolygiad Echelin II | Gwirio cynnydd y cynnig LIFE gyda Peter **MH**<br>Cysylltu â Kate Williamson mewn perthynas â chynigion prosiect arfordirol posibl SNPA **Pawb**<br>Mae'r ymgynghoriad ar Echelin II wedi'i gwblhau a chaiff adroddiad ei lunio yn y dyfodol agos. Ceir ffocws cryf ar 'leihau a dal carbon'. Holi a allwn gael dylanwad o hyd, a chadarnhau'r camau nesaf unwaith y cânt eu cyhoeddi. **SC** | |
| | | | |
| ***5. Rhannu a chyfleu gwybodaeth*** | | | |
| Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i greu adran ecosystemau arfordirol ar ei gwefan | Cyfleuster canolog ar gyfer gwaith y grŵp, cyfeiriadau, astudiaethau achos ac ati. | Ceir dolenni ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Ystyried y cynnwys a'r strwythur, a'u hanfon at Sean McHugh **Pawb**<br>Dolen:<br>http://www.biodiversitywales.org.uk/bap_in_wales-27.aspx | |
| Digwyddiad ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Bioamrywiaeth yn Wythnos Bioamrywiaeth | Codi proffil cynefinoedd a rhywogaethau arfordirol | Ystyried cynnal digwyddiadau neu ddefnyddio digwyddiadau mwy i hyrwyddo Diwrnod | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymru. | | Rhyngwladol Bioamrywiaeth ar 22ain Mai (thema - rhywogaethau ymledol anfrodorol). Ac Wythnos Bioamrywiaeth Cymru rhwng 6ed a'r 14eg Mehefin. Bydd cynnal digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn galendr hefyd yn hanfodol. **Pawb** (anfon deunydd at Sean McHugh er cyhoeddusrwydd) | |
| Llunio cyflwyniad ar gyfer cyfarfod Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru | Rhoi gwybod i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru am amcanion y grŵp a meysydd lle mae angen camau gweithredu/canllawiau gan bartneriaeth | Mae cyflwyniad i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ddewis posibl. SG Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i gyfarfod tair gwaith y flwyddyn - **Pawb i ystyried hyn** | |
| ***6. Safbwynt CGB Lleol*** | | | |
| Adolygu'r sylw a roddwyd i gynefinoedd/rhywogaethau arfordirol yn CGBau lleol Cymru | Mae gweithio gyda CGBau Lleol yn flaenoriaeth. Sicrhau yr eir i'r afael â chynefinoedd arfordirol â blaenoriaeth | Cyfeirir at hyn yn 'Targedau i CGBau Lleol' | |
| | | | |
| **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: I'w gyhoeddi** | Soniwyd am gynnal ymweliad â'r safle ar ôl cynnal cyfarfod ym mhresenoldeb partner allanol - rheolwr tir/cynrychiolydd SMP | | |

Sean McHugh
Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
19 Chwefror 2009